Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

3. Gweithio gydag eraill

3.9 Rhwydweithiau Datblygiad Rhyngwladol Cymru

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth yma yn darparu cysylltiadau a manylion rhwydweithiau a mudiadau sy'n weithredol yn y datblygiad rhyngwladol ar hyd Trydydd Sector Cymru, fel ffynonellau posib cyngor, cefnogaeth neu bartneriaeth.

Mae taflen waith ar wahân (*7.4.15 - Ariannu ar gyfer Prosiectau Rhyngwladol)* yn manylu ffynonellau ariannu ar gyfer mudiadau gwirfoddol sy'n ymwneud â phrosiectau rhyngwladol, cysylltiadau cymunedol a theithiau cyfnewid gyda'r 'de byd-eang'.

Llywodraeth

Rhaglen Llywodraeth Cymru ar 'Cymru o blaid Affrica'
www.walesforafrica.org

Dyma raglen fechan drwy Swyddfa Prif Weinidog Cymru, yn cefnogi gweithrediadau'r llywodraeth a'r gymdeithas sifil ar faterion rhyngwladol Cymreig gyda ffocws ar ddatblygiad cynaliadwy a chyfrannu at Golau Datblygu'r Mileniwm (MDG) y CU. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o'r mentrau a nodir isod.

Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol y DU (DfID)
www.dfid.gov.uk/Working-with-DFID

Mae gan yr adran nifer o raglenni ariannu, gwybodaeth a chefnogaeth a fydd o ddiddordeb i'r trydydd sector.

Y Gymdeithas Sifil

Cysylltiadau Cymunedol Cymru Affrica a Gwobrau Cymunedol Seren Aur y CU
www.walesafrica.org

Mae'r rhain yn cefnogi datblygiad partneriaethau cymunedol o ansawdd rhwng Cymru ag Affrica Is-Sahara, i weithredu prosiectau ar Iechyd, Ieuenctid, Bywoliaeth, Amgylchedd a Harmoni Cymdeithasol. Trwy WCVA, mae'r cynllun yn darparu arian grantiau, cyngor ac arbenigedd, gwybodaeth, rhwydweithio a digwyddiadau, a dan-ategwyd gan ymarfer da a chydnabyddiaeth 'Gwobr Gymunedol Seren Aur y CU'.

Daw â'r mudiadau yma at ei gilydd:

- PONT Mbale Link
- Hay2Timbuktu
- Dolen Ffermio

- Cyfeillion Sankwia Friends
- cyfanswm o 115 o fentrau cyswllt cymunedol

SMIDOS - Mudiadau Datblygu Rhyngwladol Bach a Chanolig (Small & Medium International Development Organisations)
www.smidos.com

Mae SMIDOS yn darparu 121 cefnogaeth hyfforddi ac ymgynghorol i fudiadau bach neu ganolig yng Nghymru sy'n gweithio gyda phrosiectau datblygu rhyngwladol, a hefyd yn gweithio gyda'r Cynulliad a DfID i drefnu digwyddiadau rhwydweithio mawr sydd yn y sector rhyngwladol. Mae Rhwydwaith SMIDOS yn cynnwys mudiadau fel:

- Bees for Development
- Hope for Grace Kodindo
- Money for Madagascar
- cyfanswm o 50 mudiad

Cyrchlu Cymdeithas Sifil Cymru

Hyrwyddir hyn gan WCVA, a gweithredir fel (a) grŵp cyfeirio sy'n dod ag 20 o fudiadau cymdeithas sifil at ei gilydd i ddatblygu mentrau sy'n cyfrannu at yr MDG; a (b) archwiliad ar gyfer prosiectau rhyngwladol WCVA. Mae'n dod a'r mudiadau canlynol at ei gilydd, megis:

- WCVA (Wales Council for Voluntary Action)
- Un Llais Cymru (Cynghorau Cymunedol)
- Cyngor Prydeinig - Cymru
- cyfanswm o 20 mudiad

Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol www.wcia.org.uk

Mae WCIA yn trefnu digwyddiadau, areithiau a gweithgareddau i hyrwyddo heddwch byd, hawliau dynol a dealltwriaeth ryngwladol. Mae hefyd yn ambarél ar gyfer Sefydliad y Cenhedloedd Unedig, a grwpiau heddwch a chyfiawnder drwy Gymru gyfan.

Asiantaethau Rhyngwladol yng Nghymru

Oxfam Cymru
www.oxfam.org.uk/cymru/

Canolbwyntir ar ymgyrchu, eiriolaeth, addysg gyfryngol a chyhoeddus, ac ymwybyddiaeth ar faterion tlodi bydol, yn ogystal â rhedeg rhaglen tlodi cartref yng Nghymru.

Amnest Rhyngwladol Cymru
www.amnesty.org.uk/wales

Darperir ffocws a chefnogaeth ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau ymgyrchu hawliau dynol yng Nghymru.

Achub y Plant Cymru
www.savethechildren.org.uk/ên/9070.htm

Codir arian ar gyfer prosiectau rhyngwladol, a hefyd ymgyrchu, eiriolaeth a rhaglenni cefnogaeth ar dlodi plant yng Nghymru.

Y Groes Goch Brydeinig yng Nghymru
www.redcross.org.uk/branch.asp?id=490

Gweithredir ar apeliadau dyngarol a gwaith addysgol.

DEC (Disasters Emergency Committee) Cymru

Cyswllt drwy *Oxfam Cymru.*
Cynullir DEC Cymru pan fo trychineb rhyngwladol, i gydgysylltu ymateb yr asiantaethau dyngarol yng Nghymru

Asiantaethau Rhyngwladol ar sail Ffydd

Cymorth Cristnogol Cymru
www.cymorthcristnogol.org.uk/aboutus/who/christianaidinwales/about_us.aspx

Mae hwn yn cefnogi pwyllgorau lleol Cymorth Cristnogol i weithio gydag eglwysi, cymunedau, ysgolion, mudiadau ieuenctid ac unigolion yng Nghymru i ymladd annhegwch rhyngwladol a goresgyn tlodi.

CAFOD Cymru
www.cafod.org.uk/uk

Mae CAFOD yn gweithio gyda'r gymuned Gatholig yng Nghymru i godi arian ac ymwybyddiaeth ynghylch tlodi ac anghyfiawnder bydol drwy blwyfi, ysgolion a rhwydweithiau.

Tearfund Cymru
www.tearfund.org/Volunteering/Regions

Cefnogir rhwydwaith o ymgyrchwyr Cristnogol a grwpiau gweddïo yng Nghymru a dros y byd i weithredu ar dlodi, gan gynnwys ‘connecting churches'.

Gwirfoddoli Rhyngwladol

UNA Cyfnewid
www.unaexchange.org

Mae hwn yn cydgysylltu cannoedd o leoliadau gwirfoddoli yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae'n hyrwyddo a chefnogi dealltwriaeth ryngwladol, cyfnewid diwylliannol a datblygiad cymunedol wrth alluogi twf a datblygiad personol y gwirfoddolwyr.

Cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO)
http://wales.gov.uk/psmwsubsite/psmw/personaldev/ilo/;jsessionid=LlLbLsZbgYZh04nW6sL2GpJ62yGTvxv172GrC41yQm5kSfRnNLyy!-1614394458?lang=en

Mae hwn yn darparu lleoliadau dysgu proffesiynol i weithwyr yn y sector gyhoeddus ar brosiectau Affricanaidd.

Rhwydweithiau Sector

Masnach Deg Cymru
www.fairtradewales.com
Mae hwn yn cefnogi twf y mudiad Masnach Deg yng Nghymru, yn arwain ymgyrch Masnach Deg, yn gweithio gyda masnachwyr ac ar feddiannu, ac yn cefnogi gweithio tuag at statws Masnach Deg:

- Dros 70 grŵp Tref Fasnach Deg
- Dros 400 ysgol a phrifysgolion Masnach Deg
- Gweithleoedd a grwpiau ffydd Masnach Deg.

GIG Cymru ar gyfer Rhwydwaith Cyswllt Iach Affrica
www.walesforafricahealthlinks.wales.nhs.uk

Bwriad y rhwydwaith yw hwyluso dulliau cydwedd ac effeithiol i gefnogi agenda iechyd bydol yng Nghymru, gan ddod at ei gilydd:

- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chanolfan Iechyd i Gymru
- THET (Tropical Health & Education Trust)
- Gwent Ethiopia Health Link
- 20 mudiad i gyd

Peirianwyr ar gyfer Datblygiad Tramor (EFOD)
www.efod.org.uk/home.php?page_id=22

Mae cangen Caerdydd yn dod â phobl broffesiynol o 12 wahanol gwmnïau peirianneg sifil yng Nghymru.

Cyfanfyd – Sefydliad Datblygiad Addysg yng Nghymru
www.cyfanfyd.org.uk

Mae hwn yn fudiad cenedlaethol i aelodau sy'n gweithio i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yng Nghymru drwy waith ieuenctid byd-eang, dysgu gydol oes ac addysg ffurfiol o fewn ysgolion.

Amgylchedd: Prosiect y Fforestydd Glaw 'Maint Cymru'
www.sizeofwales.org.uk (o fis Mai 2010)

Trwy WCVA, mae hwn yn datblygu partneriaethau ar draws cymdeithas sifil, llywodraeth a busnesau Cymru, i weithio tuag at weledigaeth gyfunol i warchod darn o fforest drofannol 'maint Cymru' ar draws Affrica Is-Sahara.

Ar Wasgar a chysylltiadau gwledydd

Panel Cyngor Affrica Is-Sahara

Cyswllt gyda SMIDOS.
Sefydlwyd hwn yn 2009-10 fel panel o unigolion Affricanaidd o gefndiroedd gwahanol yng Nghymru, i gynnig cyngor, cyfarwyddyd ac arbenigedd i fudiadau sy'n gweithio gyda datblygiad Affricanaidd.

Dolen Cymru – Cyswllt Cymru-Lesotho
www.dolencymru.org

Bwriad Dolen Cymru yw creu cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho a all newid byd ym meysydd addysg, iechyd, ffydd a chymdeithas sifil. Dathlir eu 25ain pen-blwydd yn 2010, a chefnogir ystod eang o grwpiau cymunedol ac unigolion ar draws Cymru, yn ogystal â rheoli rhaglen Lleoliad Athro yn Lesotho.

Cyswllt Cymru - Somaliland
www.walessomaliland.org

Mae hwn yn cefnogi pobl ar wasgar yn Ne Cymru a'r gymuned ehangach i gyfrannu tuag at fentrau datblygu yn Somaliland drwy ddatblygu partneriaethau a chysylltiadau rhwng cymunedau, ysgolion a mudiadau cymdeithas sifil.

Cyswllt ABESU Cymru - Zambia
www.abesu.org.uk

Mae ABESU yn cefnogi cydymffurfio rhwng mudiadau yng Nghymru a'r bobl ar wasgar sy'n gysylltiedig â Zambia.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JT
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 245555 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 245550 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:08/06/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk